



Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

CYSUR 5/2017

Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd: 11^{eg} Ebrill 2019

Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Adolygiad Ymarfer Plant Cryno Ynghylch:
CYSUR 5/2017**

Amlinell gryno o'r amgylchiadau'n arwain at yr Adolygiad

Y Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol ar sail adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014*¹ a chyfarwyddyd cysylltiedig *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*² (Llywodraeth Cymru, 2016).

Caiff y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn eu cyrraedd dan Bennod 6, *Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno*:

Rhaid i Fwrdd wneud Adolygiad Ymarfer Plant Cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol pan fo cam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu dybiedig yn ardal y Bwrdd, a'r plentyn un ai:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- wedi cael amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad; **ac**

nad oedd y plentyn naill ai ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol –

- Dyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod; neu'r
- dyddiad pan nododd yr Awdurdod Lleol (ALI) neu bartner perthnasol³ bod plentyn wedi cael amhariad difrifol a pharhaol ar iechyd a datblygiad.

Caiff y meini prawf ar gyfer adolygiadau cryno eu pennu yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*⁴.

Diben yr adolygiad yw nodi arferion i'w dysgu at y dyfodol. Mae'n golygu bod ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn edrych ar fanylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Bwriad yr adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a threfnyddol a hybu gwella'r arferion rhwng asiantaethau ac amddiffyn plant yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys tynnu sylw at arferion effeithiol ac ystyried yr hyn sydd angen ei wneud yn wahanol i wella arferion y dyfodol. (*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant* (Llywodraeth Cymru, 2016)⁵).

Mae cylch gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn yn **Atodiad 1**.

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

² [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl](#) – V2 – CPRs (Llywodraeth Cymru, 2016)

³ Awdurdod Lleol neu bartner perthnasol yw unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o *Ddeddf Plant 2004* neu gorff a grybwyllir yn adran 175 o *Ddeddf Addysg 2002*

⁴ [Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#)

⁵ [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl](#) – V2 – CPRs (Llywodraeth Cymru, 2016)

Amgylchiadau'n Arwain at yr Adolygiad

Ar gais y teulu, mae'r plant sy'n destun yr adolygiad hwn i ddwyn yr enw Plentyn A a Phlentyn B.

Yn dilyn cyfeireb ddiogelu gan Sgriniwr Clyw Newydd-anedig, gwelwyd bod gan Blentyn A, bachgen bach pedair wythnos oed, anafiadau a allai beryglu bywyd ac a allai beri amhariad difrifol a pharhaol ar ei iechyd neu ddatblygiad. Roedd gan Blentyn B, chwaer ddyflwydd a hanner oed Plentyn A, anafiadau nad oedd naill ai'n peryglu ei bywyd nac yn rhai a allai beri amhariad difrifol a pharhaol ar ei hiechyd neu ddatblygiad.

Yn dilyn y gyfeireb ddiogelu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, dechreuodd Cydymchwiliad Adran 47⁶ a rhoddwyd y plant yn yng ngofal yr Awdurdod Lleol (ALI). Erbyn hyn mae'r plant hyn yn byw gyda'u mam-gu a'u tad-cu ar ochr y fam dan orchymyn gwarchodaeth arbennig⁷.

Roedd Plentyn A wedi cael anafiadau lluosog. Ymhlith y rhain oedd toriad i'r penglog, cleisiau gwaedlif ar ddwy ochr y talcen, cleisio, crafiadau, rhwygiad o'r ffrwynig wefusol, asennau wedi torri yn ogystal â thoriadau'n gwella i'r radiws chwith, y glun chwith a'r migwrn chwith. Er nad oedd modd dyddio'n union ba bryd y cafwyd yr holl anafiadau, gwelwyd bod y mwyafrif wedi digwydd o fewn pythefnos i gael eu nodi, ar 3^{ydd} Chwefror 2017. Roedd gan Blentyn B doriad arddwrn yn gwella, a chrafiadau a chleisiau i'w hwyneb; er nad ystyriwyd bod neb wedi achosi'r rhain.

Daeth dyfarniad y Llys Teulu i gasgliad mai mam y plant a gyflawnodd yr anafiadau i Blentyn A. Gwelwyd na pherwyd yr anafiadau i Blentyn B ac, felly, ni nodwyd unrhyw gyflawnydd.

Dangosodd proses y Llys Teulu fod gan fam y plant anabledd dysgu arwyddocaol. Gosododd asesiad cymhwyster hi yn 1% isaf y boblogaeth, gydag IQ o 53 ac oed darllen o 6 blynedd. Daeth asesiad magu plant i gasgliad bod gan y fam ddiffygion yn 95% o'r sgiliau a aseswyd a gallu cyfyngedig iawn i fagu plant o ganlyniad.

Darganfu'r adroddiad seicolegol ar dad y plant fod ganddo alluoedd ffiniol, gan gynnwys IQ o 76 sy'n ei osod ym 5% isaf y boblogaeth. Mae'r asesiadau'n disgrifio 'difaterwch' y tad ynghylch ei gyfrifoldebau fel rhiant, ei fethiant i weld anafiadau gweladwy i Blentyn A a gallu cyfyngedig y fam i ymdopi â rheoli dau blentyn.

Daeth y dyfarniad i gasgliad bod yr anafiadau i Blentyn A o ganlyniad i anawsterau eu mam gydag ymdopi â bywyd bob dydd yn hytrach nag unrhyw weithrediadau creulon neu ddifater. Ni ddaeth yr Heddlu ag unrhyw gyhuddiadau troseddol.

Y Cyfnod a Adolygwyd a Pham

Mewn Adolygiad Ymarfer Plant Cryno (AYPC), mae'r dysgu'n canolbwyntio ar gyfnod o ddeuddeg mis. Dewisodd y Panel Adolygu'r cyfnod 2^{il} Mawrth 2016 i 2^{il} Mawrth 2017 er mwyn cynnwys beichiogrwydd y fam a'r mis yn dilyn y gyfeireb ddiogelu. Fodd bynnag, er mwyn deall y cyd-destun angenrheidiol, mae'r Achlysuron Dysgu a'r Adolygydd Annibynnol wedi ystyried gwybodaeth hanesyddol berthnasol.

⁶ [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 3.7 \(2008\)](#)

⁷ [Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002](#)

Hanes Deuluol y Plant a Gwybodaeth Gyd-destunol

Cyn y digwyddiad hwn, nid oedd naill ai Plentyn A na Phlentyn B yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ni fuont fyth yng ngofal yr ALI nac yn destun Cynllun Amddiffyn Plentyn (CPP).

Roedd Plentyn A a Phlentyn B yn byw gyda'u mam a'u tad. Cyfarfu eu rhieni ym mis Ionawr 2013 ac roeddent yn byw mewn dinas fawr yn Lloegr. Pan aned Plentyn B ym mis Gorffennaf 2014, roedd y teulu (mam, tad a Phlentyn B) yn byw gyda'r fam-gu a'r tad-cu ar ochr y fam, oedd yn gwneud llawer i gynorthwyo bywyd arferol y teulu a magu Plentyn B. Roedd dau gyfnod byr pan oedd y teulu wedi byw ar wahân i'r fam-gu a'r tad-cu ar ochr y fam. Y rhain oedd pan oedd y fam, y tad a Phlentyn B wedi byw gyda theulu estynedig, a'r ail dro oedd pan wahanodd y fam a'r tad, pan fu'r fam a Phlentyn B yn byw mewn fflat am lai na phythefnos. Mae'n bwysig nodi na phrofwyd llawer ar allu rhianta'r fam a'r tad heb gymorth, hyd hynny.

Ym mis Mawrth 2015, symudodd y fam, y tad a Phlentyn B i ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y fam-gu a'r tad-cu ar ochr y tad wedi symud yno ym mis Tachwedd 2014 ac, yn dilyn ymwahanu o fam y plant, symudodd y tad i fyw ger ei rieni. Dilynodd y fam ef gyda Phlentyn B ar ôl cyfnod o bythefnos. Roedd symudiad y fam i Ganolbarth a Gorllewin Cymru'n anfwriadol, ac fe ddigwyddodd tra'r oedd ei rhieni i ffwrdd ar wyliau. Daethant adref a synnu o weld bod y fam a Phlentyn B wedi symud. Fe arhosodd ei rhieni a'r teulu estynedig yn Lloegr, gan ymweld â'r teulu'n rheolaidd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Cadwodd mam-gu ar ochr y fam gyswllt bob dydd dros y ffôn.

Roedd yn anodd cael cyd-destun hanesyddol i'r hyn oedd yn hysbys o anabledau dysgu'r fam. Dywedodd ei rhieni bod y fam wedi cael cymorth un-i-un drwy gydol ei haddysg a'u bod yn meddwl fod ganddi ddatganiad anghenion addysgol arbennig.⁸ Fodd bynnag ni allai'r teulu, fel rhan o achos dilynol y Llys Teulu, ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth ddogfennol o'r datganiad.

Mae'n hysbys hefyd bod y fam, yn dilyn genedigaeth Plentyn B, wedi dioddef iselder ôl-enedigol. Mae cofnodion iechyd yn manylu cymorth meddyg teulu (GP) cysylltiedig â hyn yn Lloegr a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Tra'r oedd yn Lloegr, cyfeiriwyd y fam at wasanaethau iechyd meddwl ond ni wnaeth ymgysylltu. Rhoddodd mam y plant y gorau i gymryd gwrthiselyddion at iselder ôl-enedigol gyda chymorth meddyg teulu, ym mis Chwefror 2016.

Cadarnhawyd nad oedd y teulu'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol tra'r oeddent yn byw yn Lloegr.

Ychydig o gysylltiad fu rhwng y â gwasanaethau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac roeddent yn hysbys yn unig i'r asiantaethau a sefydliadau cymorth canlynol:

- Meddyg Teulu
- Gwasanaethau Bydwreigiaeth ac Obstetreg
- Ymweliadau Iechyd
- Gwasanaethau Peditrig
- Meithrinfa ar gyfer Plentyn B

⁸ Datganiad yw dogfen sy'n dangos AAA plentyn ac unrhyw gymorth ychwanegol y dylai'r plentyn ei dderbyn. Nod y Datganiad yw sicrhau bod plant yn cael y cymorth cywir i alluogi iddynt symud ymlaen yn yr ysgol.

<https://www.gov.uk/children-with-special-educational-needs>

Nodwyd yr ymarfer a dysgu sefydliadol o elfennau allweddol canlynol yr adolygiad:

- Cynhyrchu llinell amser amlasiantaethol a dadansoddiad asiantaethau cyfunedig
- Tri Achlysur Dysgu
- Safbwynt teulu'r fam
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu
- Ymgynghori â staff y Feithrinfa
- Adolygu cofnod yr achos
- Dadansoddiad yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel

Nodwyd pwyntiau dysgu drwy'r broses adolygu i gyd. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn digwydd gyda synnwyr trannoeth. Dylai unrhyw ddysgu gyfrannu at wella arferion y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau'n gadarn wrth amddiffyn plant. Mae'r adran isod yn nodi'r themâu sy'n ymddangos o'r adolygiad a'r dysgu sydd i'w gael ohonynt.

Darpariaeth a Chyfathrebu ar draws Gwasanaethau Iechyd

- Roedd y teulu'n hysbys i bedair adran / arbenigedd mewn asiantaethau gwasanaethau iechyd (Meddyg Teulu, Bydwreigiaeth, Ymweliadau Iechyd, Peditreg).
- Darparwyd gwasanaethau bydwreigiaeth ar draws dau Fwrdd Iechyd gwahanol.
- Roedd y fam yn mynd yn rheolaidd i feddygfa'r meddyg teulu gyda Phlentyn B. Ar gyfartaledd, roedd yn ymweld ddwywaith bob tair wythnos, yn bennaf gyda mân afiechydon neu anhwylderau plentyndod nad oedd, gan mwyaf, yn gofyn dim mwy na rhoi sicrwydd i'r fam gan weithwyr iechyd proffesiynol, yn hytrach na thriniaeth.
- Perygl gwirioneddol i Blentyn A oedd marwolaeth ddirybudd baban oherwydd gorchuddio gormodol. Ar ddiwrnod y gyfeireb ddiogelu, gwelodd y Sgriniwr Clyw Newydd-anedig Blentyn A yn ei gadair wthio gyda het wedi'i thynnu i lawr dros ei ben a'i wyneb. Roedd dau orchudd ar y pram ynghyd â chôt dros y cyfan. Tri diwrnod ar ddeg cyn hyn, gwelodd Bydwraig Gymunedol Blentyn A mewn cyflwr tebyg. Roedd yn ei gadair wthio gyda blanced dros bob tamaid ohono, gan gynnwys ei ben, a gorchudd glaw a chôt dros y cyfan. Cododd y Fydwraig Gymunedol Blentyn A a gwelodd ei fod yn boeth. Soniodd y Fydwraig Gymunedol yn hir am berygl marwolaeth ddirybudd baban a mygu, a chyflëwyd y pryderon hyn i'r Ymwelydd Iechyd fel rhan o'r gollwng o'r gwasanaethau bydwreigiaeth. Cofnododd nodiadau'r Ymwelydd Iechyd a'r meddyg teulu ymweliad â'r clinig wythnos yn ddiweddarach, lle gwelwyd bod Plentyn A gyda gormod drosto a'i fod yn boeth.
- Gollyngwyd y fam a Phlentyn A o'r gwasanaethau Bydwreigiaeth Gymunedol ar ddydd Gwener. Yn ystod yr ymweliad gollwng, roedd gan y fydwraig bryderon diogelu oherwydd y gwelwyd Plentyn A dan orchuddion gormodol. Gadawodd y Fydwraig Gymunedol neges ffôn i'r Ymwelydd Iechyd yn manylu ar y pryder diogelu – ni dderbyniwyd y neges hon tan y Dydd Llun dilynol.
- Cynigiodd yr Ymwelydd Iechyd wasanaeth uwch i fam Plentyn A a B oherwydd hanes iselder ôl-enedigol y fam a'i phenderfyniad i roi'r gorau i foddion iselder cyn dod yn feichiog. Mae'r adolygiad wedi ystyried a oedd canolbwytio ar iselder ôl-enedigol yn golygu y methwyd y cyddestun ehangach a'r peryglon oherwydd gallu'r fam i fagu plant.
- Eglurodd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel naws dysgu'r adolygiad wrth asiantaethau, gyda phwyslais amlwg ar bwysigrwydd bod yn agored, cydweithredu a thrafod yn adeiladol. Weithiau roedd rhai o elfennau'r adolygiad yn anodd a sensitif i asiantaethau a staff oedd â chysylltiad â'r teulu. Ar adegau yn ystod yr adolygiad bu'n amlwg bod gwahaniaethau mewn systemau, polisi a gweithdrefn rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a Byrddau Iechyd, sydd wedi arwain at her a gwahaniaethau proffesiynol.

Arferion Da a Nodwyd

- Meddygfa'r meddygon teulu roedd wedi nodi a thrafod angen y fam am sicrwydd.
- Cafodd y fam a Phlentyn A wasanaeth bydwreigiaeth cynenedigol ac ôl-enedigol dda, yn unol â'r weithdrefn. Roedd nifer yr ymweliadau ôl-enedigol uwchlaw'r cyfartaledd.
- Galwyd am nodiadau bydwreigiaeth ar enedigaeth Plentyn B oddi wrth y Bwrdd Iechyd yn Lloegr, a rhoddwyd dadansoddiad ohonynt ar ffeil y fam.
- Roedd arferion da'n amlwg yn ystod y beichiogrwydd, o ran cwblhau ymholiadau trais teuluol rheolaidd.⁹
- Darparwyd gwasanaeth Ymweliadau Iechyd uwch, gan gynnwys cymorth nyrs feithrin oherwydd hanes iselder ôl-enedigol y fam. Roedd gan y fam berthynas gadarnhaol gyda'i Ymwelydd Iechyd ac yn ymddiried ynddi. Cynigiodd yr Ymwelydd Iechyd eiriol dros y fam ac fe adolygodd Blentyn B yn y feithrinfa hefyd.
- Cynigiwyd ymweliad sgrinio clyw newydd-anedig â chartref Plentyn A, oherwydd na chadwodd y fam yr apwyntiad sgrinio clyw newydd-anedig.
- Yn dilyn y pryderon diogelu a fynegwyd gan y Fydwraig Gymunedol wrth ollwng, cynigiodd yr Ymwelydd Iechyd eiriol dros y fam ac fe adolygwyd Plentyn B yn y feithrinfa hefyd.

Safbwynt y Teulu

- Roedd y fam yn canmol y gwasanaethau a gafodd gan Fydwreigiaeth, Ymweliadau Iechyd a'r Meddyg Teulu; teimlai eu bod yn cynnig cymorth da iddi.

Dysgu

- Pe bai'r gwasanaethau Iechyd a fu'n ymwneud â'r teulu hwn wedi rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd, efallai y gellid bod wedi nodi gymaint oedd gwendidau'r teulu hwn a chael cyngor, canllawiau a gwasanaethau arbenigol. Yn dilyn yr Achlysur Dysgu, mae meddygfa'r meddyg teulu bellach yn ystyried ymestyn (gyda'u tîm amlddisgyblaethol) eu cofrestr sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd i dynnu sylw at gleifion oedrannus a/neu eiddil i gwmpasu gwendidau ehangach ar draws pob oed.
- Ystyriwyd ei bod yn anniogel gollwng y fam a Phlentyn A o'r gwasanaethau Bydwreigiaeth ar ddydd Gwener gyda phryderon diogelu cyfredol. Pe bai'r teulu wedi aros yn agored i Fydwreigiaeth dros y penwythnos, yna gallai ymweliadau dilynol fod wedi digwydd cyn agor y gwasanaethau Ymweliadau Iechyd ar y dydd Llun dilynol.
- Collwyd cyfle i wneud cyfeireb ddiogelu ynghylch gorchuddio gormodol. Dylid bod wedi gweithredu hyn pan welwyd yr ail dro.
- Roedd y gwasanaethau Ymweliadau Iechyd uwch yn canolbwyntio ar iselder ôl-enedigol. Efallai, gydag agwedd fwy cyfannol at y teulu, y gellid bod wedi nodi gymaint oedd gwendidau'r teulu hwn a chael cyngor, canllawiau a gwasanaethau arbenigol.
- Mae'n hanfodol bod gwasanaethau Iechyd yn gallu datblygu diwylliant o herio a dysgu rhwng galwedigaethau a Byrddau Iechyd gwahanol. Bydd hyn yn galluogi iddynt weithio tuag at wella gwasanaethau a chael gwell canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaethau o ganlyniad.¹⁰

⁹ [Llwybr Cymru Gyfan Ymholiadau Cynenedigol Arferol i Safonau Gofynnol Camdriniaeth Deuluol](#)

¹⁰ [Her 2016: Gweledigaeth ar gyfer GIG Cymru](#)

Roedd gan y fam anabledd dysgu a chymhwysedd cyfyngedig; ni chafodd goblygiadau hyn o ran ei gallu i fagu plant ei gydnabod yn llawn gan weithwyr proffesiynol.

- Mae'n bwysig nodi nad yw bod ag anabledd dysgu a/neu gymhwyster cyfyngedig yn gwneud rhywun yn riant gwael. Ar ben hynny, mae llawer o enghreifftiau o bobl gydag anabledd dysgu a/neu gymhwyster cyfyngedig yn magu plant yn dda a diogel. Y nod yw sicrhau bod y cymorth a gwasanaethau cywir yn bodoli i sicrhau magu plant mewn ffordd ddiogel a chadarnhaol.
- Yn Achlysuron Dysgu'r ymarferwyr, cafodd gweithwyr proffesiynol oedd yn adnabod y fam hi'n anodd derbyn ei hasesiadau cymhwyster isel, oherwydd ei hymarweddiad.
- Yn ystod eu hymweliad â mam y plant, gwelodd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel fod mam y plant wedi datblygu technegau cuddio effeithiol pan nad oedd yn deall cwestiwn. Dim ond ar ôl mwy o drafodaethau y daeth faint a ddeallai'n amlwg. Dywedodd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel sut ellid ei fethu mewn rhyngweithiad / apwyntiad byr.
- Dywedodd mam y plant wrth y Bydwagedd Cymunedol nad oedd wedi deall yr hyn a ddywedwyd wrthi yn yr apwyntiad cofrestru, oherwydd bod y gweithwyr proffesiynol yn siarad Cymraeg. Dangosodd mwy o ymholiadau ers hynny nad fel hyn yr oedd.
- Roedd un o'r Bydwagedd Cymunedol yn amau bod dealltwriaeth y fam yn gyfyngedig, ac wedi cysylltu â'r Ymwelydd lechyd ar ddau achlysur ar wahân i gael gwybod a allai ddeall gwybodaeth a chyfarwyddiadau. Sicrhawyd hi wedyn gan yr Ymwelydd lechyd y gallai ddeall.
- Nid oedd staff y Feithrinfa wedi deall o fewn y sefydliad bod gan y fam anabledd dysgu neu gymhwyster cyfyngedig i ddeall; eu hamgyffred oedd bod y fam yn ddistaw a swil iawn. Roedd un achlysur pan nad oedd yn gallu rhoi ei rhif ffôn yn gywir iddynt. Roedd hefyd yn cyrraedd yn gynnar ar dywydd oer gyda Phlentyn B, yn aml heb ddillad priodol.
- Roedd meddygfa'r meddyg teulu wedi gweld bod ar y fam angen sicrwydd rheolaidd ynghylch iechyd Plentyn B.
- Dywedodd y Bydwagedd nad ydynt yn gwybod digon ynghylch cymhwyster ac anableddau dysgu, a'u heffaith ar feichiogrwydd a magu plant. Maent yn teimlo y dylent gael mwy o hyfforddiant, offer a gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Gwnaethant y sylw mai agendâu cenedlaethol yn hytrach nag angen lleol sy'n penderfynu hyfforddiant.
- Nid oedd cadw cofnodion bob amser yn eglur. Nodwyd bod adegau, ar draws holl asiantaethau, pan fynegwyd pryder ond heb ddigon o fanylion neu gyd-destun, h.y. a yw'r pryder yn hunan-grybwylledig, ai barn broffesiynol yw, beth yw'r camau gweithredu a chan bwy.

Arferion Da a Nodwyd

- Fe wnaeth y Fydwraig Gymunedol sicrhau faint oedd y fam yn ei ddeall gyda'r Ymwelydd lechyd ar ddau wahanol achlysur.
- Fe ystyriodd yr Heddlu ganlyniad achos y Llys Teulu wrth ystyried a oedd achos troseddol yn briodol.

Safbwynt y Teulu

- Eglurodd rhieni'r fam sut oeddent yn ei chynorthwyo yn ei bywyd bob dydd a magu Plentyn B.
- Roedd rhieni'r fam mewn cyswllt dyddiol ac yn ymweld â hi'n rheolaidd ar ôl y symudiad i Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Roeddent yn teimlo bod mam y plant yn ymdopi'n dda gyda chymorth tad y plant a'i rieni ef.
- Teimlai'r Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel bod rhieni'r fam yn ddarwybod wedi datblygu eu hymddygiadau a strategaethau ymdopi eu hunain i wneud iawn am anabledd dysgu'r fam dros gyfnod maith. Gallai hyn fod wedi'i gwneud yn anodd iddynt weld y perygl o ran â gallu'r fam i fagu plant.

CYSUR 5/2017 Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

- Dywedodd mam y plant y credai ei bod yn ymdopi'n iawn, a chadarnhaodd nad oedd wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch tad y plant, ei rhieni, y rhieni'r tad, nac unrhyw weithwyr proffesiynol.
- Dywedodd mam y plant wrth yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel y byddai wedi hoffi cael mwy o gefnogaeth a chymorth gan dad y plant. Roedd tad y plant bob amser yn gweithio, gan weithio drwy ei absenoldeb tadolaeth â thâl, ac na chynigiodd gymorth.
- Roedd gan dad y plant lawer mwy o allu i fagu plant yn ddiogel na'u mam. Pe bai wedi chwarae rhan fwy cynorthwyol a gweithredol fel rhiant, byddai'r peryglon i Blentyn A a Phlentyn B wedi lleihau. Nid yw'n amlwg pa mor gyfrannog oedd rhieni'r tad; ond pe byddent wedi cyfranogi mwy, gallai hyn hefyd fod wedi ychwanegu rhywfaint o ddiogelwch.

Dysgu

- Nid yw bob amser yn amlwg ar unwaith bod gan rywun cymhwyster cyfyngedig neu anabledd dysgu. Mae mam y plant wedi datblygu sgiliau byw a strategaethau ymdopi oedd yn galluogi iddi guddio faint oedd yn ei deall. Dim ond trwy dreulio amser gyda hi y daw hyn yn amlwg.
- Yr awgrym yw, gydag ychydig mwy o chwilfrydedd proffesiynol ac amser, y gallai pob un o'r asiantaethau oedd wedi adnabod y teulu hwn fod wedi nodi bod gan fam y plant anabledd dysgu a chymhwyster cyfyngedig. Pe bai hyn wedi digwydd, gellid bod wedi nodi cyngor, canllawiau a gwasanaethau arbenigol yn gynharach.
- Roedd Bydwraig Gymunedol yn amau nad oedd y fam yn gallu deall yr hyn oedd yn cael ei gyfleu iddi. Ar ddau achlysur cadarnhaodd hyn gyda'r Ymwelydd lechyd, y teimlai oedd yn adnabod y fam yn well. Dywedodd y Fydwraig wrth yr adolygiad y byddai'n dda ganddi, gyda synnwyr trannoeth, pe bai wedi gwrandao ar ei greddfau a gwneud cyfeireb ddiogelu ei hun.
- Nid oedd yn hysbys i'r asiantaethau na fu llawer o brawf ar allu'r rhieni i fagu plant yn annibynnol.
- Dywedodd staff nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant a gwybodaeth gysylltiedig â chymhwyster magu plant ac anableddau dysgu. Mae lechyd yn cyflogi Nyrs Gymunedol Anabledd Dysgu arbenigol, ac mae ganddynt arweinyddion diogelu. Byddai'r cyfryw staff, ochr yn ochr ag arbenigwyr anabledd dysgu Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, wedi gallu rhoi cyngor a chyfarwyddyd i gefnogi'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig â'r teulu hwn.

Pwysigrwydd gwybod sut i wneud ac ymateb i gyfeireb ddiogelu

- Awgrymwyd y gall y Sgriniwr Clyw Newydd-anedig, trwy wneud y gyfeireb ddiogelu pan wnaeth, fod wedi achub bywyd Plentyn A.
- Roedd ymateb yr Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant i'r gyfeireb yn ddi-oed, a chymrwyd camau diogelu priodol y diwrnod hwnnw, gan roi'r plant mewn gofal maeth.
- Defnyddiodd yr Heddlu berthynas yr Ymwelydd lechyd gyda'r fam i gael mynediad i'r cartref.
- Dangosodd dadansoddiad cronolegol y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oeddent wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol ar gyfer trafod y strategaeth. Gwelwyd hefyd y dylai cyfarfod strategaeth fod wedi cael ei gynnal yn dilyn y drafodaeth i dynnu ynghyd yr holl asiantaethau perthnasol dan sylw i rannu gwybodaeth.

Arferion Da a Nodwyd

- Defnyddiodd y Sgriniwr Clyw Newydd-anedig ei hyfforddiant a'i greddf a gwnaeth gyfeireb ddiogelu ar yr adeg iawn.
- Roedd yr ymateb diogelu dilynol yn ddi-oed a dilynodd y trefnau cywir i gadw Plentyn A a Phlentyn B yn ddiogel.

CYSUR 5/2017 Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

- Defnyddiodd Gwasanaethau Cymdeithasol Plant y protocol ar gyfer babanod ansymudol wrth wneud eu penderfyniad i wneud archwiliad meddygol diogelu plant.
- Roedd y fam yn ymddiried yn yr Ymwelydd Iechyd ac fe gynorthwyodd y berthynas hon yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol gael mynediad i'r cartref rheiniol.

Safbwynt y Teulu

- Soniodd rhieni mam Plentyn A a B am eu braw pan ddywedwyd wrthynt am y gyfeireb ddiogelu a'r anafiadau ac mai eu hymateb ar y dechrau oedd gwadiad llwyr a methu deall sut oedd hyn wedi digwydd.

Dysgu

- Sicrhau bod holl staff ac asiantaethau'n cael hyfforddiant diogelu sylfaenol, yn cadw hyn yn gyfoes ac yn gwybod sut i wneud cyfeireb ddiogelu sy'n helpu achub bywydau plant.
- Roedd y protocol ar gyfer cleisio mewn babanod ansymudol yn ddefnyddiol wrth hybu'r gyfeireb ddiogelu a chamau dilynol.¹¹
- Dylid atgyfnerthu trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan¹² i gynnwys holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn. Dylid casglu gwybodaeth ddiogelu'r Heddlu o ran rhieni. Dylai trafodaethau strategaeth ystyried gofyn am wybodaeth gan ALI blaenorol. Dylid cynnal cyfarfodydd strategaeth i dynnu gwybodaeth amlasiantaethol ynghyd.

Adolygiadau Asiantaethau Priodol ac Amserol yn Dilyn Digwyddiad Tyngedfennol

- Dywedodd y Bydwagedd wrth yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel mai dyma'r tro cyntaf y siaradwyd â nhw yn dilyn yr anafiadau i Blentyn A. Teimlent gyda'i gilydd y dylai fod wedi bod rhyw fath o glywed adroddiadau a dysgu asiantaethol mwy amserol. Mynegodd y Meddyg Teulu'r un farn. Clywsom o'r Panel Adolygu ac Achlysur Dysgu'r rheolwyr y bu gwrandawriad adroddiadau ac adolygiad data. Mae'n dal yn aneglur, fodd bynnag, pam nad oedd y Bydwagedd a'r Meddyg Teulu'n ymwybodol o'r prosesau hyn, nac yn rhan ohonynt. Roedd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel yn pryderu bod y gwasanaethau Iechyd wedi aros am ganlyniad proses yr Adolygiad Ymarfer Plant cyn archwilio unrhyw ddysgu asiantaethol. Pryd bynnag y bo modd, dylai asiantaethau wneud unrhyw ddysgu adferol ar unwaith i wella gwasanaethau ac arferion, yn hytrach nag aros cyn cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant.
- Trafodwyd y cynnig i wneud cyfeireb am Adolygiad Ymarfer Plant yn y Grŵp Gweithredol Lleol (GGLI) ar dri achlysur, cyn symud ymlaen i'r is-grŵp rhanbarthol ar gyfer argymhelliad terfynol. Nid oes unrhyw gofnodion o'r trafodaethau na phenderfyniadau yn y GGLI. Roedd safon y gyfeireb wreiddiol i'r is-grŵp rhanbarthol yn wael, ac nid oedd yr unigolyn oedd yn ei chyflwyno'n gwybod dim am yr achos. Felly, rhaid oedd dod â'r gyfeireb yn ôl ar achlysur dilynol i'w hystyried.
- Nododd ymateb yr Heddlu yn yr Achlysur Dysgu y bu rhai anawsterau wrth geisio cael deunydd o'r Llys Teulu i'w adolygu fel tystiolaeth a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad i drosedd. Roedd hyn wedi bod yn rhannol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth yr ymchwilyr ynghylch sut i gael y cofnodion a rhai anawsterau cysylltiedig â darparu gwasanaethau cyfreithiol yn Heddlu Dyfed-Powys ar y pryd. Dywedodd yr ymchwilyr bod Gwasanaeth Eryl y Goron wedi cyfathrebu a chynghori'n dda. Fodd bynnag, roeddent wedi gwrthod gwneud penderfyniad cyhuddo tan ar ôl canlyniad Gwrandawriad y Llys Teulu, gan ymestyn canlyniad yr ymchwiliad troseddol. Soniodd yr Heddlu hefyd am brinder cenedlaethol o

¹¹ SGP005 Cleisio mewn Babanod Ansymudol dan flwydd oed, Canllawiau i Weithwyr Iechyd Proffesiynol

¹² [Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 3.7 \(2008\)](#)

CYSUR 5/2017 Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

Dystion Meddygol Arbenigol i roi tystiolaeth yn y llysoedd Teulu a Throseddol ar achos anafiadau.

Dysgu

- Dylai holl asiantaethau fod yn glir ynghylch cyfrifoldebau arweinwyr i sicrhau eu bod yn gallu cynorthwyo staff i gyflwyno adroddiadau'n dilyn digwyddiad tyngedfennol, a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol yn brydlon. Ni ddylai hyn aros am broses Adolygiad Ymarfer Plant.
- Dylai GGLI sicrhau fod cofnodion sy'n rhoi manylion cywir y trafodaethau a gwneud penderfyniadau cysylltiedig â chyfeirebau adolygiad. Dylai cyfeirebau at yr is-grŵp fod o safon i sicrhau bod modd eu trafod a'u hadolygu gan y gweithwyr proffesiynol sydd yno. Dylid cyflwyno cyfeirebau gan uwch-reolwr sy'n hyddysg yn yr amgylchiadau sy'n cael eu hadolygu.
- Dylai gwasanaethau cyfreithiol Heddlu Dyfed-Powys roi arweiniad a hyfforddiant i swyddogion ynghylch defnyddio, a sut i gael, deunydd y Llys Teulu pan fo'n berthnasol i ymchwiliad i drosedd.

Gwella Systemau ac Arferion

Er mwyn hybu dysgu o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i aelod-asiantaethau a chanlyniadau gwella disgwylidig:

Dysgu 1: Hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd o anableddau dysgu ac anawsterau dysgu, eu heffaith ar y gallu i fagu plant a beichiogrwydd.

Dysgu 2: Sefydlu systemau i wella'r cyfathrebu rhwng Meddygon Teulu, Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd, er mwyn iddynt allu rhannu gwybodaeth am bobl agored i niwed a datblygu golwg gyfannol ar y ffordd orau o'u cynorthwyo.

Dysgu 3: Gwneud adolygiad o drefnau gollwng Bydwreigiaeth i ystyried safonau arferion da ar gyfer pan fo pryder diogelu cyfredol.

Dysgu 4: Holl asiantaethau i sicrhau eu bod yn hyrwyddo ac yn darparu hyfforddiant diogelu priodol fel bod holl staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn gallu gwneud cyfeirebau diogelu'n hyderus.

Dysgu 5: Holl asiantaethau i sicrhau fod ganddynt drefnau a systemau ar gyfer adolygu unrhyw ddigwyddiadau tyngedfennol / trwch blewyn a nodi pethau i'w dysgu ar unwaith yn brydlon.

Dysgu 6: Bwrdd Diogelu a'r Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant i fod yn hyderus bod gan asiantaethau partner gyfundrefnau rheoli effeithiol ac adnoddau ar gyfer sicrhau gwneud adolygiadau dysgu (AYP, APR a MAPF) i'r safon ofynnol.

Dysgu 7: Datblygu a gweithredu protocol rhanbarthol ar gyfer Anafiadau i Fabanod Ansymudol.

Dysgu 8: Y Bwrdd Diogelu i ddatblygu offeryn y gall holl asiantaethau partner ei ddefnyddio i hybu gwerth chwilfrydedd proffesiynol a rhannu gwybodaeth i gadw plant yn ddiogel.

Proses Adolygiad Ymarfer Plant

Proses Adolygiad Ymarfer Plant

Ystyriwyd cyfeireb yr Adolygiad Ymarfer Plant o ran Plentyn A a Phlentyn B yn y GGLI ar dri achlysur yn 2017 cyn symud ymlaen i is-grŵp yr Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol. Trafodwyd y gyfeireb ym mis Medi 2017, ond nid oedd manylion digonol. Felly, gofynnwyd am ragor o wybodaeth, a dychwelodd y gyfeireb i'r is-grŵp ym mis Ionawr 2018, gan beri argymhell i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gynnal Adolygiad Ymarfer Plant. Wedyn cymeradwyodd y Cadeirydd yr argymhelliad hwn ym mis Chwefror 2018, gan gadarnhau y dylid gwneud Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Cynrychiolwyd y gwasanaethau canlynol ar y Panel Adolygu:

- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yr ALI
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yr ALI
- Iechyd (2 Fwrdd Iechyd)
- Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Comisiynwyd Cadeirydd y Panel ac Adolygydd Annibynnol, yn unol â'r canllawiau, annibynnol ar reolaeth yr achos a chyda'r profiad, galluoedd, gwybodaeth a sgiliau perthnasol yn ôl gofynion y teulu a'r amgylchiadau dan sylw.

Achlysuron Dysgu

Cynhaliwyd tri Achlysur Dysgu yn ystod mis Ionawr 2019. Cawsant eu hwyluso ar y cyd gan Gadeirydd y Panel a'r Adolygydd Annibynnol.

Mynychwyd yr Achlysur Dysgu cyntaf ar gyfer ymarferwyr gan yr asiantaethau canlynol:

- Bydwagedd Cymunedol

Mynychwyd yr ail Achlysur Dysgu ar gyfer ymarferwyr gan yr asiantaethau canlynol:

- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yr ALI
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yr ALI
- Iechyd (2 Fwrdd Iechyd) (Meddyg Teulu, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd)
- Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Mynychwyd y trydydd Achlysur Dysgu ar gyfer rheolwyr gan yr asiantaethau canlynol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yr ALI
- Iechyd (2 Fwrdd Iechyd) (Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd Gwasanaethau Anabledd Dysgu Cymunedol)
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Yn ogystal, bu'r Adolygydd Annibynnol yn ymgynghori dros y ffôn â staff yn cynrychioli'r Feithrinfa a fynychodd Plentyn B. Gwnaed hyn oherwydd y daeth i'r amlwg, yn dilyn yr Achlysuron Dysgu, na chawsant eu gwahodd yn ôl y cynllun gwreiddiol.

Rhoddodd yr Achlysuron Dysgu gyfle i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ystyried eu cyfranogiad, ymarfer, asesiadau a phrosesau penderfynu. Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol i hwyluso trafodaethau a nodi pethau i'w dysgu:

- | |
|--|
| 1. Beth lwyddodd, pa arferion da welsoch chi? |
| 2. |
| 3. Beth fethodd yn eich barn, oes yna bethau sy'n eich pryderu? |
| 4. |
| 5. Beth yn eich barn allai asiantaethau fod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 6. |
| 7. Pa gamau yn eich barn sydd angen i asiantaethau eu cymryd yn y dyfodol, i sicrhau bod unrhyw ddysgu'n ysbrydoli arferion y dyfodol? |
| 8. |

Roedd cloriannu ac ymateb i bob un o'r tri Achlysur Dysgu'n gadarnhaol iawn.

Mae Cadeirydd y Panel a'r Adolygydd Annibynnol wedi cael anawsterau sylweddol o ran cwblhau'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn. Bu hyn yng nghyd-destun diffyg cymorth ymarferol priodol a digonol gan yr Awdurdod Lleol, yn ogystal ag absenoldeb goruchwylio cadarn uwch-reolwyr o gynnydd a rheolaeth yr adolygiad. Gallai'r diffyg ymgysylltu hwn fod wedi peryglu ansawdd yr adolygiad, a chwblhau'r adolygiad o fewn yr amser a gytunwyd. Mae wedi gofyn dyfalbarhad ac ymyriad ffurfiol Cadeirydd y Bwrdd i sicrhau na pheryglwyd safonau proffesiynol.

Ymgysylltiad y Teulu

Ymgysylltiad â thad y plant a rhieni'r tad

Cysylltwyd ddwywaith â theulu'r tad yn ystod yr adolygiad gan Weithiwr Cymdeithasol oedd yn adnabod y teulu'n dda. I ddechrau roeddent wedi cytuno i gyfarfod Cadeirydd y Panel a'r Adolygydd Annibynnol ond, yn ddiweddarach, penderfynasant na fyddent. Yn dilyn yr ail gais i gyfarfod, cadarnhaodd y teulu eu bod yn teimlo nad oeddent eisiau ymgysylltu oherwydd nad oeddent eisiau 'codi hen grachod ac ail-fyw'r cyfan eto'.

Ar ôl hynny fe ysgrifennodd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel at y tad a'i rieni i egluro'r canlynol:

- Pam fod adolygiad a sut fyddai'n cael ei gynnal
- Swyddogaeth yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel
- Yr achlysur dysgu
- Amserlenni adroddiadau

Rhoddasant restr o bump o gwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r tad a'i rieni, a gofyn iddynt a fyddent yn barod i ateb yn ysgrifenedig. Anfonwyd llythyr dilynol ym mis Chwefror 2019, ond ni chafwyd ateb. Felly, ni chaiff eu barn ei chynrychioli yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel hefyd wedi cynnig ymweld â'r tad a'i rieni i rannu'r adroddiad hwn gyda nhw cyn ei gyhoeddi.

Ymgysylltu â mam y plant a'i rhieni

Cytunodd mam y plant a'i rhieni gyfarfod yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel, a gwnaed ymweliad ym mis Ionawr 2019 yng nghartref rhieni'r fam yn Lloegr.

I baratoi ar gyfer yr ymweliad, anfonwyd llythyr i fam y plant a'i rhieni. Eto, eglurodd y llythyr hwn pam fod adolygiad, sut fyddai'n cael ei gynnal, swyddogaeth yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel, yr Achlysur Dysgu a'r adroddiad. Cawsant restr hefyd o gwestiynau yr hoffai'r Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel eu gofyn cyn yr ymweliad.

Roedd yr ymweliad yn gadarnhaol iawn. Cyfarfu'r Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel â Phlentyn A, oedd yn blentyn bach dymunol, bywiog. Roedd Plentyn B yn yr ysgol ac nid oedd yn

CYSUR 5/2017 Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

bresennol yn ystod yr ymweliad; ond dangoswyd ffotograffau teuluol ohoni iddynt, merch fach hyfryd. I ddechrau cyfarfu'r ddau â rhieni'r fam ac, yn ddiweddarach, gyda mam y plant. Cawsant gymorth Gweithiwr Cymdeithasol o'r ALI oedd yn adnabod y teulu'n dda.

Cafodd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel holl aelodau'r teulu'n agored a deniadol. Roeddent yn ymddangos yn agored, didwyll a meddylgar yn eu hymatebion, ac yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad hwn. Rhannwyd eu safbwyntiau a'u hymatebion yn yr Achlysuron Dysgu a, phan fo hynny'n briodol, cânt eu cynnwys yn yr adran ar Ymarfer a Dysgu Sefydliadol. Hefyd, rhoddodd y teulu ffotograff prydferth o Blentyn A a Phlentyn B i'r Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel i'w ddefnyddio yn yr Achlysur Dysgu. Cafodd hyn dderbyniad da gan y mynychwyr hynny oedd yn adnabod y teulu.

Roedd Cadeirydd y Panel wedi cael hyfforddiant a phrofiad o gyfweild yn unol â Sicrhau'r Dystiolaeth Orau¹³ gyda phlant, oedolion agored i niwed ac oedolion gydag anawsterau dysgu. Rhoddodd hyn y sgiliau i gyfathrebu'n effeithiol gyda'r fam fel ei bod yn gallu deall gwybodaeth a roddwyd iddi ac ateb cwestiynau a ddeallai. Gyda threigl amser daeth anabledd dysgu'r fam a'i gallu i ddeall y cwestiynau'n fwy amlwg. Gadawyd yr Adolygydd Annibynnol a Chadeirydd y Panel gyda dealltwriaeth dda o ba mor dda y gallai mam y plant ymddangos a chuddio'i hanableddau. Teimlai'r ddau fod hwn yn ymddygiad a ddysgwyd / strategaeth ymdopi yn hytrach na rhywun yn ceisio bod yn ochelgar.

¹³ [Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2011](#)

CYSUR 5/2017 Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

Datganiad yr Adolygydd / Adolygwyr			
Adolygydd 1	Diane Beacroft	Adolygydd 2 <i>(fel y bo'n briodol)</i>	amherthnasol
Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>		Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	
Gwnaf y datganiad bod y canlynol yn wir cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:		Gwnaf y datganiad bod y canlynol yn wir cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:	
<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu deulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi cael unrhyw reolaeth atebol uniongyrchol o'r ymarferydd neu ymarferwyr dan sylw. Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant priodol i wneud yr adolygiad. Gwnaed yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a chloriannu'r materion ar sail y cylch gorchwyl. 		<ul style="list-style-type: none"> Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu deulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. Nid wyf wedi cael unrhyw reolaeth atebol uniongyrchol o'r ymarferydd neu ymarferwyr dan sylw. Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant priodol i wneud yr adolygiad. Gwnaed yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a chloriannu'r materion ar sail y cylch gorchwyl. 	
Adolygydd 1		Adolygydd 2	
<i>(Llofnod)</i>		<i>(Llofnod)</i>	
Enw	Diane Beacroft	Enw
<i>(Printiwch)</i>		<i>(Printiwch)</i>	
Dyddiad	Dyddiad
Cadeirydd y Panel Adolygu			
<i>(Llofnod)</i>			
Enw	Elaine Bendle		
<i>(Printiwch)</i>			
Dyddiad		
At defnydd Llywodraeth Cymru'n unig			
Dyddiad derbyn y wybodaeth: <i>(dyddiad)</i>			
Anfonwyd llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd:			
<i>(dyddiad)</i>			
Cylchredwyd i arolygiaethau perthnasol / Arweinwyr Polisi:			
<i>(dyddiad)</i>			
Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AGIC			
AEM Heddlu			
AEM Profiannaeth			

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl ar gyfer CYSUR 5/2017 (AYPC)

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

CYSUR 5/2017 (AYP Cryno Powys)



- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** – David Johnston, Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro, Powys
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** – DI Elaine Bendle, Heddlu Dyfed Powys
- **Adolygydd Annibynnol** – Diane Beacroft, Cyngor Sir Penfro

Gwaith creiddiol:

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau penodol a'r Bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio a darparu gwasanaethau rhwng asiantaethau ar gyfer y plentyn a theulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er budd y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cael aelodau priodol o'r teulu i gyfrannu at yr adolygiad a'u hysbysu o agweddau allweddol ar gynydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog cysylltiedig â'r achos.
- Cynnal achlysur dysgu amlasiantaethol ar gyfer ymarferwyr a nodi adnoddau gofynnol.

Gwaith Penodol y Panel Adolygu:

- Nodi a chomisiynu adolygydd i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau i adolygiadau cryno.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos dechreuol a nodi unrhyw gamau di-oed a gymrwyd eisoes.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol o ran Adolygydd Annibynnol ac Aelodau'r Panel.
- Cynhyrchu llinell amser gyfunedig, dadansoddiad dechreuol a chanlyniadau dysgu.
- Gyda'r adolygydd, cynllunio achlysur dysgu ar gyfer ymarferwyr, i gynnwys enwi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl yr achlysur, a threfniadau ar gyfer ymateb.
- Gyda'r adolygydd, cynllunio trefniadau cysylltu gyda'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn yr achlysur.
- Derbyn ac ystyried drafft adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau y cyflawnwyd y cylch gorchwyl a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad ac amlinell cynllun gweithredu, a threfnu i'w gyflwyno i'r Is-grŵp AYP i'w ystyried a'i gytuno.

CYSUR 5/2017 Adroddiad Cryno ar Adolygiad Ymarfer Plant

- Gwneud trefniadau i ymateb i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl darfod yr adolygiad a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *Panel Adolygu* yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gwelwch adran Rhannu Gwybodaeth a Chydgyfrinachedd).

Gwaith Penodol yr Is-grŵp AYP:

- Cytuno a chymeradwyo Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer pob achos lle cymeradwywyd AYP.
- Cytuno ar gasgliadau'r adroddiad drafft ac amlinell cynllun gweithredu, a threfnu i'w gyflwyno i'r Bwrdd i'w ystyried a'i gytuno.
- Cadw golwg ar gynlluniau gweithredu AYP i sicrhau bod holl argymhellion yn cael eu cyflawni ar ran y Bwrdd.

Gwaith Penodol Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:

- Hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch cynnal AYP.
- Cadw at amserlenni ar gyfer gorffen, ar sail canllawiau statudol.
- Derbyn adroddiad a chynllun gweithredu terfynol yr AYP a'i gymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Anfon yr adroddiad at asiantaethau perthnasol i gael eu sylwadau terfynol cyn cwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut fydd gwelliannau gwasanaeth disgwylidig yn cael eu nodi, eu harolygu a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei orffen.
- Cytuno ar ledaenu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ymholiadau'r cyfryngau ynghylch yr adolygiad cyn cwblhau'r broses.

Rhannu Gwybodaeth a Chydgyfrinachedd

Rhaid eglurhau perchenogaeth holl wybodaeth a dogfennau er mwyn cael caniatâd priodol y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Fe all sefydliadau rannu gwybodaeth sy'n perthyn iddynt neu'n deillio ohonynt yn unig.

Dylid eglurhau cyfrifoldeb dros ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys darparwyr annibynnol) a'i gytuno gan y Panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cydgyfrinachedd (fel yr isod) yn cael ei lofnodi ymhob cyfarfod o'r Panel gan holl fynychwyr i ailddatgan o fewn ba derfynau y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn cysylltiad ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae holl asiantaethau wedi cytuno ar derfynau cydgyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parhau'r derfynau cydgyfrinachedd hynny ac yn cael ei dal dan

gyd-ddealltwriaeth:

- Bod cyfarfod y Panel yn cael ei gynnull yn ôl canllawiau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Y bydd datgelu gwybodaeth oddi allan i'r Panel y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei gytuno yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn doriad cydgyfrinachedd y gwrthrych ac yn doriad cydgyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
- Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu'n hanfodol, dylid gofyn i ddechrau am ganiatâd Cadeirydd y Panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar egwyddor 'bod angen gwybod'.
- Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb eithaf dros ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r Panel Amlasiantaethol yn aros gyda Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a rhaid cyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd am awdurdod i ddatgelu.